

Y diweddar ERNEST JONES, Blaenau Ffestiniog ar drywydd ROBERT FESTYN DAVIES (Arweinydd y Welsh Imperial Singers)

Y MAE'N tynnu am 70 mlynedd er pan ffurfiwyd y *Welsh Imperial Singers*. Ysgrifennodd Alun Trevor am y cantorion ond y mae angen sylw i'w harweinydd hefyd. Byddai Festyn Davies wrth ei fodd. Mae'n gorwedd ym mynwent Trawsfynydd, yn isel iawn ei ben. Un o'r Traws oedd o'n wreiddiol ond hoffai gael ei alw yn *'Welsh-American'*.

Ganwyd ef yn Nhy-n-y-pistyll ar 3 Medi 1870, yn fab i Dafydd Walter Davies a Margaret Davies. Gellid profi ei fod o'r un cyff â'r bardd Ionoron Glan Dwyrdd, sef Rowland Walter, ond fe gymerai hynny ormod o ofod. Fel y mwyafrif mawr o'i gyfoedion yn Nhrwysfynydd i un o chwareli 'Stiniog yr aeth Festyn ar ôl gadael yr ysgol. Nid oedd 'Festyn' yn agos i'w enw bedydd. Ef a benderfynodd nad âi ymhell ym myd cerddoriaeth gydag enw fel Robert Davies.

Roedd yn uchelgeisiol o'i ddyddiau cynnar. Deuai o deulu cerddorol a thalentog, ac y mae pobl yn y Traws heddiw sy'n cofio am yr oes o wasanaethu a roes ei chwaer, Kate Morris, i fro Trawsfynydd drwy ddysgu cerddoriaeth i genedlaethau o blant ac ieuencid. Roedd ganddo lais tenor da ac y mae gen i'r syniad ei fod â'i fryd ar fod yn unawdydd yn y *Metropolitan Opera* yn Efrog Newydd. Pan oedd tua 17 oed cafodd ran unawdydd mewn cantawd a berfformiwyd ym Mlaenau Ffestiniog. Gwelodd nad oedd dyfodol iddo fel chwarelwr yn cael mân ddarnau yn y cynyrchiadau lleol. Ac i ffwrdd ag ef i America tua'r flwyddyn 1890.

Os oedd gan rywun lais go dda a'r gallu i fod yn unawdydd, y siawns orau oedd gan gantor ifanc fel Festyn yn America bryd hynny oedd cael swydd fel unawdydd yn yr eglwysi a'r capeli. Efallai y byddai'n rhaid i'r unawdydd weithio yn ystod yr wythnos ond yr uchelgais oedd cael bod yn unawdydd llawn amser a bod yn athro canu preifat.

Yr oedd talent, hunanhyder a gallu i wneud argraff ar bobl yn angenrheidiol i un yn safle Festyn ac, wrth lwc, doedd Festyn ddim yn fyr yn yr un o'r cymwysterau. 'R. Festyn Davies' oedd ei enw proffesiynol yn awr, ac yn wir fe gafodd gychwyn go dda. Does dim sôn amdano yn cael lle fel unawdydd neu gôr-feistr mewn capel neu eglwys, ond mewn amser cymharol fyr cafodd Festyn ddarnau mewn

cynyrchiadau fel *'Maritana'* a *'Bohemian Girl'*.

Aeth am hyfforddiant i golegau cerddorol — un ohonynt yn Llundain. Yr oedd digon o alw am unawdwyr yn Llundain ac yr oedd y Cymdeithasau Cymraeg ar ei ôl hefyd. Yno y cafodd wraig, Alice Free, ac fe'u priodwyd yn Plumstead Common yn 1903, a bu iddynt ddwy ferch, Cecilia a Margaret. Daeth y briodas i ben, fodd bynnag, yn 1907.

Cafodd Festyn ganu mewn operâu ysgafn a bu'n canu gyda band y Grenadiers yn Clacton. Daeth i fwy o amlygrwydd wedi i Pedr Alaw ysgrifennu amdano yn *Kelt* yn 1907. Dychwelodd i America yn 1908 a chafodd gryn ganmoliaeth yn y papur newydd *The Druid* a oedd yn cylchredeg ymhlith y Cymry Americanaidd.

Y tro hwn cafodd waith fel côr-feistr mewn eglwys Bresbyteriaidd ac fe wnaeth farc drwy ganu gyda band Philipino yn New Jersey. Ni chafodd Festyn fachiad gyda chanu opera yn y Metropolitan. Yn ôl y record sydd gen i ohono, fyddwn i ddim yn meddwl fod ganddo lais i ganu opera. Beth bynnag, symudodd Festyn o gylch Efrog Newydd i'r Gorllewin gan sefydlu yn Seattle (talaith Washington).

Yr oedd Festyn yn ei yrru ei hun yn galed ac fe haeddai'r llwyddiant a ddaeth i'w ran yn y Gorllewin Pell. Gwnaeth argraff dda fel unawdydd tenor ond dim ond agwedd o'i waith fel arweinydd corawl oedd hynny, fe dybiaf, er iddo gael ei gyflwyno ugeiniau o weithiau fel, *'... the great Welsh tenor'*. Yr oedd gorganmol yn nodwedd ym mywyd cerddorol America ar y pryd, rwy'n ofni, ac yr oedd ambell froliant yn haeru mai Festyn oedd y tenor gorau erioed i ddod o Gymru, ac fe'i disgrifiwyd fel *'Professor Festyn Davies'* droeon. Does dim amheuaeth, fodd bynnag, iddo lwyddo a dod yn adnabyddus yn nhaleithiau Washington a Chalfornia.

Yr oedd Seattle yn ddinas brysur gyda chyffleion i gerddor diwyd a medrus. Y cyfrwng cynnar a gafodd Festyn i weithredu ei ddawn fel arweinydd oedd gyda pharti dethol o leisiau meibion o dan yr enw *'The Meistersingers'* ond yr oedd y naw aelod yn medru perfformio yn rhyfeddol.

Yna cafodd Festyn afael ar gôr-merched yn Tacoma — côr niferus a grymus a ddaeth i sylw diamheuol. Ond y trobwynt yn hanes Festyn oedd ei benodiad

Britain's Greatest Male Ensemble



Festyn Davies.

FESTYN
DAVIES

(The Celebrated Conductor)

and his World Renowned

IMPERIAL
SINGERS

OF WALES

Seen and heard in all
Corners of the Earth

HEADQUARTERS:

Great Britain:
TRAWSFYNYDD,
North Wales.

U.S.A.:
THE REDPATH BUREAU,
Kimball Bldg., Chicago.

yn drefnydd cerddorol eglwys Bresbyteriaidd yn Tacoma. Yr oedd yno gôr mawr a allai berfformio gweithiau'r meistri. Hoff gampwaith Festyn, mae'n amlwg, oedd *Elijah*, ac mae dadl gref dros ei ddewisriad, fel y gwyddom ni Gymry. Dyma'r gwaith a gyflwynwyd amlaf gan Festyn a'i gôr, a phan fyddai Festyn yn unawdydd mewn llwyfaniadau eraill o'r un gwaith, ef a fyddai'n cymryd rhan Obadiah, gyda llwyddiant mawr.

Cafodd Festyn ganmoliaeth lawer tro fel arweinydd y *'Peninsula Choral Society'*. Erbyn 1916 roedd Festyn yn arwain a hyfforddi yr *'Yakima Male Chorus'*, ac yma fe ddylid pwysleisio'r gair 'hyfforddi'. Yr oedd gan Festyn allu arbennig i ddysgu pobl ac unigolion sut i ganu. Tueddai i fod yn orthrymus ac ansensitif, ond llwyddai er hynny. Casglodd bob talaith o adroddiadau a sylwadau o'r newyddiaduron ar ôl pob cyngerdd ac yr oedd hynny'n waith caled, ond pluserus iddo. Côr arall y bu ynglŷn ag ef oedd côr y *Schubert Club*, Seattle.

Erbyn 1918 yr oedd Festyn wedi cael cyfrwng arall i weithio arno — milwyr y Fyddin Americanaidd. Ef oedd cyfarwyddwr cerddorol *'Camp Fremont'*. Nid oedd pawb yn coelio y gellid dysgu milwyr i ganu, ond llwyddodd Festyn yn wyneb y sinigiaeth honno, hyd yn oed. Yr oedd mewn gwsg filwrol a gelwid ef, *'Captain R. F. Davies'*.

Yr oedd Festyn yn gohebu yn rhydd gyda swyddogion y Fyddin. Caneuon gwladgarol a ddysgid i'r milwyr a phenllanw ei gyfnod yn hyfforddi'r milwyr oedd y *'Mammoth Patriotic Festival'*, a gynhaliwyd yn Stadiwm Stanford. Disgrifiwyd yr achlysur fel, *'The greatest open air concert ever held in America.'* a chyfarwyddwr y fenter oedd Festyn Davies. Meddyliar am y brodor o Drawsfynydd yn arwain côr a gynhwysai ddeng mil o filwyr.

Yr oedd dwy ferch Festyn Davies erbyn hynny yn aros yn Nhrwysfynydd er 1915 ac yn mynychu Ysgol Dr Williams yn Nolgellau. Yn 1919 yr oedd Festyn yn arwain cyngerdd